

## **Safonau'r Iaith Gymraeg – Contractau Trydydd Parti a Thendro**

O dan Fesur y Gymraeg [Cymru] 2011 mae dyletswydd statudol ar Brifysgol Aberystwyth i gydymffurfio â 5 o Safonau sy'n ymwneud â chontractau trydydd parti a thendro. Mae'r Safonau hyn wedi'u gosod er mwyn rhoi'r hawl i aelodau o'r cyhoedd ddewis p'un ai i ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg wrth wneud cais am gontract gyda'r Brifysgol. Disgwylir hefyd y bydd unrhyw trydydd parti sy'n darparu gwasanaeth ar ran y Brifysgol hefyd yn cydymffurfio â'r Safonau perthnasol.<sup>1</sup>

### **Gwahoddiadau i Dendro**

- Yn unol â Safon 80 dylid cyhoeddi pob gwahoddiad i dendro yn ddwyieithog.
- Ystyr gwahoddiad i dendro yw'r hysbyseb cychwynnol a gyhoeddir e.e yn GwerthwchiGymru.
- Fodd bynnag, nid yw gwahoddiadau a gyhoeddir yn Nghyfnodolyn Swyddogol Rheolau Caffael yr Undeb Ewropeaidd (OJEU) yn gorfod bod yn ddwyieithog.
- Rhaid i'r gwahoddiad ddatgan bod modd cyflwyno cynigion yn Gymraeg.
- Rhaid datgan yn y gwahoddiad na fydd cynigion a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a gyflwynir yn Saesneg.
- Rhaid i'r dyddiad cau fod yr un fath ar gyfer cynigion a gyflwynir yn Gymraeg a'r cynigion a gyflwynir yn Saesneg.
- Rhaid i'r amserlen ar gyfer ymateb i'r cynnig fod yr un fath ar gyfer cynigion a gyflwynwyd yn Gymraeg a'r rhai a gyflwynwyd yn Saesneg.

Os byddwch yn derbyn cynnig am gontract yn Gymraeg a bod angen cyfweld fel rhan o'ch asesiad o'r tendr fe ddylech chi:

- ofyn iddynt a fyddent yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad
- cynnal y cyfweliad yn Gymraeg os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg neu
- trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn galluogi iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweliad.

Os bydd cynnig wedi'i gyflwyno yn Gymraeg fe ddylech chi

- roi gwybod am eich penderfyniad am y cynnig yn Gymraeg.

### **Hysbysiadau Contract**

- Ystyr Hysbysiad Contract yw'r tendr/cais llawn am ddogfennau dyfynbris.

<sup>1</sup> Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017, (5)(a) t.5-6

- Wrth lunio Hysbysiad Contract dylid ystyried:
  - a yw pwnc y tendr yn ymwneud yn uniongyrchol â'r iaith Gymraeg?
  - a yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg.
- Os atebwyd y cwestiynau uchod yn gadarnhaol :
  - Rhaid i'r Hysbysiad Contract fod yn ddwyieithog (ac eithrio'r rhai a gyhoeddir yn Nghyfnodolyn Swyddogol Rheolau Caffael yr Undeb Ewropeaidd (OJEU))

### **Gwasanaethau Trydydd Parti**

- Os bydd trydydd parti wedi'i gontractio i ddarparu gwasanaeth ar ran y Brifysgol, disgwylir i'r trydydd parti hwnnw gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg.
- Mae rhestr wirio'r Swyddfa Caffael ar gyfer pryniadau £5000+ yn cyfeirio at yr ystyriaeth o oblygiadau'r iaith Gymraeg. Dylid cysylltu â Chanolfan Gwasanaethau'r Gymraeg os bydd angen arweiniad ar hyn.
- Efallai y bydd angen cynghori'r Trydydd Parti o'r hyn sy'n ddisgwylidig ganddynt er mwyn cydymffurfio â'r Safonau. E.e. :
  - os bydd y Trydydd Parti yn gosod arwyddion ar gampws y Brifysgol, dylai'r arwyddion hynny fod yn ddwyieithog
  - os bydd y Trydydd Parti yn gohebu â myfyrwyr neu staff neu'r cyhoedd ar ran y Brifysgol, dylai'r ohebiaeth fod yn ddwyieithog
  - os bydd y Trydydd Parti yn cynnig gwasanaeth wyneb yn wyneb â myfyrwyr neu'r cyhoedd, dylai'r gwasanaeth hwnnw fod ar gael yn Gymraeg hefyd.
  - os bydd y Trydydd Parti yn cynnig gwasanaeth wyneb yn wyneb â staff dylid gwirio a oes Safonau Gweithredol (y Safonau sy'n berthnasol i staff) sy'n datgan y dylai'r gwasanaeth fod ar gael yn Gymraeg i staff.
  - os bydd y Trydydd Parti yn defnyddio eu gwefan i hysbysebu'r Brifysgol mewn rhyw ffordd, dylai'r hysbysebu fod yn ddwyieithog.
  - os defnyddir Trydydd Parti i recriwtio staff dylid cydymffurfio â'r Safonau sy'n ymwneud a recriwtio staff.

### **Canllaw Comisiynydd y Gymraeg**

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi llunio canllaw ar gyfer pobl sy'n gweithio o dan gytundeb neu sy'n derbyn grant, sef *Gwneud Cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg*. Argymhellir darparu copi i'r ymgeiswyr llwyddiannus. Gellir lawrlwytho copi o wefan y Comisiynydd neu o wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg.

### **Templedi defnyddiol**

Datganiad ar gyfer ffurflen gais ar gyfer grant

*Mae croeso i chi gyflwyno'ch cais yn Gymraeg. Bydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn union yr un modd â chais a gyflwynwyd yn Saesneg.*

*You are welcome to submit your application in Welsh. Any application submitted in Welsh will be treated in the same way as applications submitted in English.*

Datganiad ar gyfer gwahoddiad i dendro

*Mae croeso i chi gyflwyno'ch tendr yn Gymraeg. Ni fydd tendrau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na thendrau a gyflwynir yn Saesneg.*

*You are welcome to submit your tender in Welsh. Tenders submitted in Welsh shall not be treated less favourably than tenders submitted in English.*

Cymal i'w cynnwys mewn gwahoddiadau i gyfweiliad pan fo cais/tendr wedi'i gyflwyno yn Gymraeg. (Neges uniaith Gymraeg fyddai hon).

*Mae croeso i chi ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad. Er mwyn ein helpu ni i drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd angen, byddwn yn ddiolchgar petaech yn rhoi gwybod a fyddai'n well gennych ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfweiliad.*

*TICIWCH: Ar gyfer y cyfweiliad hwn hoffwn ddefnyddio'r :*

Gymraeg  Saesneg